Roedd fy mhlant hefyd yn mynychu Ysgol Abersoch i fynd i glwb yr Urdd a'r Clwb Crefft, lle roeddent yn mwynhau yn fawr. Oni bai mai dim ond blwyddyn fyddai gan yr hynaf cyn symud i fyny i Sarn Bach - a phoeni am symud plentyn ddwywaith mewn dwy flynedd - yna symud i Ysgol Abersoch yn bendant fyddai ein dewis cyntaf wedi bod. Petai 'opsiwn 9' - a gynigwyd yn y cyfarfod lleol - ar gael, yn Ysgol Abersoch fyddai fy mhlant heddiw.

Fel person lleol sydd wedi byw'r rhan fwyaf o'm bywyd ym mhlwyf Llanengan ac yn gyn-gynghorydd cymunedol ar ward Abersoch, rwyf yn teimlo yn gryf na ddylid cau'r ysgol.

Yn wir fy nghred yw mai gwir fwriad y cyngor yw cau cymaint o ysgolion bach â phosib, i gael rheoli llai o ysgolion mwy. Mae'r polisi wedi bod yn cropian ers degawd a mwy. Canlyniad y bwriad hwn yw'r bwriad i gau Ysgol Abersoch. Torri ar ariannu yw'r nod. Y drafferth efo torri yw'r difrod o dorri gormod. A'r dioddefwyr fydd trigolion cymuned Abersoch.

Mae'r gymuned Gymreig yn Abersoch er yn fach erbyn heddiw, yn un gref. Mae'r Ysgol yn rhan bwysig o hyn, a brofir gyda gwobr aur y Siarter Iaith. Mae polisiâu Gwynedd wedi caniatáu i Abersoch fod yn bentref gwyliau (ail gartrefi) mwyaf proffidiol y Sir o ran trethi, a bwriedir cynnydd pellach. Yn ôl ystadegau'r cyngor mae Plwyf Llanengan yn cyfrannu dros 4% o'r dreth a gesglir yng Ngwynedd, dros £3,000,000. Ar ôl tynnu 'presept' y Cyngor Cymuned a chyfraniad yr Heddlu, mae hyn yn gadael dros £2.3 miliwn. Oni ddyliai canran cyfrannol o'r dreth hon fynd i gefnogi cnewyllyn Cymreig y pentref ac adnodd pwysig i drigolion llai breintiedig y ward?

Sylwadau pellach.

Wrth ddarllen pecyn cefndir yr Ymgynghoriad, cefais fy synnu gan **niferoedd** Ysgol Llanbedrog (Appendix 4). Caniatéir iddi drwy ryw ddirgel ffordd, i gymeryd pedwar ar bymtheg o blant yn fwy na'r capasiti! Pedwar ar bymtheg a ddylai fod wedi ei rhannu rhwng ysgolion cyfagos! Dim ond Yr Adran Addysg allai fod wedi rhoi'r caniatád i hyn. Sut bod hyn yn bosib? Sut y caniatáwyd hyn?

O ran **'rhagamcanion** o ddisgyblion' (ffigwr 5.2) a'r dyfyniad oddi tano: "T'r gwrthwyneb, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi cynyddu 15% yn yr un cyfnod" - yr un 15% ag mae'r ysgol dros ei chpasiti!

Ni wn sut yr amcangyfrifir y rhagamcanion hyn ond rwy'n mawr obeithio nad ydych yn ceisio cau ysgol ar amcangyfrifiad o lai na 10 plentyn. Rwyf ar ddeall bod nifer o blant o dan oed ysgol yn y cylch - un ar ddeg yn ôl bob sôn. Pe na byddai Ysgol Llanbedrog wedi cael 'caniatád' i fynd dros gapasiti, yna mae'n debyg na fyddai Ysgol Abersoch mewn sefyllfa i chi fod yn dadlau dros ei chau.

Ar y pwynt o **'niferoedd'**: rwy'n siŵr nad all Ysgol Foel Gron gynnal 61 o blant, nag Ysgol Abersoch gynnal 42. O adnabod y ddwy ysgol, mae'r ddau ffigwr yna yn swnio'n llawer rhy uchel. A allwch gadarnhau bod y ffigyrau yn 'Appendix 4' yn gywir, rhag ofn eu bod yn gamarweiniol?

Yn gywir,

Dylan Llwyd

--

Gwiriwyd yr e-bost hwn gan Libraesva ESG ar rhan Cyngor Gwynedd

This message has been checked by Libraesva ESG on behalf of Gwynedd Council  
[Marcio fel sbam / Mark it as spam](#)  
[Gwahardd y anfonwr / Blacklist sender](#)

Chwefror 20fed, 2021

Swyddfa Moderneiddio Addysg  
Yr Adran Addysg  
Cyngor Gwynedd  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Annwyl Moderneiddio Addysg ac Aelodau'r Cabinet,

Hoffem gymryd y cyfle hwn i fynegi ein gwerthfawrogiad o'r sensitifrwydd a estynnwyd atom fel cymuned ysgol yn ystod cyfnod colledion trasig teulu ein Pennaeth y llynedd, ac am y gefnogaeth o gynnal trefniadau cynnal staffio i sicrhau parhad addysg ein disgyblion. Mae'n dyled a'n diolchgarwch yn fawr i dîm gwych staff addysgu a chefnogol Ysgol Abersoch a ddangosodd wydnwch, gofal a sensitifrwydd unedig trwy gydol yr amseroedd heriol yn ystod blwyddyn eithriadol anodd.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar o ohirio'r ymgynghoriad tan ar ôl y Nadolig. Fodd bynnag, parhawn fod yn siomedig y teimlwyd ei bod yn addas parhau â'r Ymgynghoriad Statudol, er gwaethaf y pandemig cyfredol a'r cyfyngiadau eithafol cysylltiedig, a'n hataliodd rhag cynnal unrhyw gyfarfod staff, rhieni neu gymunedol nac unrhyw drafodaeth naturiol, effeithiol ar y mater difrifol hwn. Yn bwysicach, efallai, parodd y penderfyniad o barhau gryn ofid i'r plant, sydd wedi gorfod ymdopi nid yn unig ag absenoldeb eu Pennaeth ac amodau ofnadwy Covid ond, hefyd, â'r syniad gofidus o gau eu hysgol. Teimlwn yn bendant na wnaed y penderfyniad hwn er lles y plant.

Treuliwyd cryn amser yn astudio'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol, ynghyd â'r Pecyn Cefndir a baratowyd gan yr Adran Addysg, yn fanwl. Gwnaeth swmp sylweddol yr wybodaeth hon hi'n amhosibl i ni ymateb, yn unol â chais yr Adran Addysg, mewn unrhyw ffordd yn ystod penwythnos cyntaf yr ymgynghoriad, yn arbennig pan na dderbyniwyd y copïau caled a ofynnem amdanynt ar Ionawr 6ed yn llawn tan Ionawr 19eg.

Cefnogwn ymateb Cyfeillion Ysgol Abersoch sy'n delio â'r dogfennau Ymgynghoriad Statudol yn fanwl. Felly, er mwyn osgoi ailadrodd, penderfynom ganolbwyntio'r ymateb hwn ar gryfderau presennol yr ysgol a syniadau a mentrau o sicrhau ffordd gynaliadwy ymlaen.

## Ysgol Abersoch

Mae'n ysgol gymunedol yng ngwir ystyr y gair, ymhle dysgir plant mewn dosbarthiadau bychain ac y clywir pob llais. Gwneir defnydd llawn o gyfleusterau gwych y Neuadd Bentref gyfagos, a darperir gwersi nofio trwy'r flwyddyn. Ymgysyllta'r disgyblion â'r gymuned trwy gyflwyniad arloesol o'r cwricwlwm a wêl y plant allan yn y pentref yn rheolaidd. Trefnir amrywiol glybiau ar-ôl-ysgol, gan gynnwys Cangen Tudwal o'r Urdd, sy'n cynnig gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg. Tra bod meintiau dosbarthiadau yn llai

na'r rhai mewn ysgolion cyfagos, buasai'r mwyafrif o bobl yn tystio ei fod o fantais i'r plant yn nhermau canlyniadau addysgol gwell. Mewn cymhariaeth, sylwyd ar ddsbarthiadau mawr mewn ysgolion cyfagos sydd, gyda llaw, yn fwy na maint y dosbarthiadau a nodwyd gan Gyngor Gwynedd ei hun, a allai arwain at ganlyniadau gwaelach. Mae'n syndod y rhodda'r Adran Addysg fwy o bwyslais ar ryngweithiad cymdeithasol na chyrrhaeddiad addysgol. Gadawa disgyblion yr ysgol wedi'u cymhwyso â sgiliau angenrheidiol a hyder fel unigolion dwyieithog, yn ymwybodol o ddiwylliant a'r amgylchedd â synnwyr o dreftadaeth a chysylltiad gydol oes â phentref a chymuned Abersoch.

Ar ddechrau'r adolygiad anffurfiol, ym mis Medi 2019, derbynion bod niferoedd disgyblion is yn arwydd o'r angen am newid, a diolch i symbyliad y cyfarfodydd dechreuol, darganfuwyd nifer o bethau newydd i wella cynladwyedd yr ysgol. Yr ydym nawr hefyd wedi sicrhau bod y strwythur staffio yn cydfynd â'r gyllideb.

*Yn ystod cyfnod heriol, mae Ysgol Abersoch wedi bachu ar y cyfle ac wedi cyflwyno mesurau cynaliadwy i wynebu niferoedd disgyblion isel*

### Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi

Mae'r Corff Llywodraethol yn falch, a chynhyrfus, o gefnogi a chroesawu'r Cylch Ti a Fi a'r Cylch Meithrin mewn dosbarth pwrpasol yn adeilad yr ysgol, gan y profodd y grwpiau hyn gynnydd yn niferoedd disgyblion mewn ysgolion eraill yn yr ardal. Yn dilyn ymchwil, a chyda cefnogaeth lawn Mudiad Meithrin, ffurfiwyd pwyllgor annibynnol a sefydlwyd y ddwy fenter mewn cyfnod byr iawn, gan agor ym mis Chwefror 2020. Ond, eto, dewisodd yr Adran Addysg anwybyddu unrhyw effaith posibl o'r ymdrechion hyn ar niferoedd y disgyblion.

#### *Cylch Ti a Fi*

Grŵp wythnosol sy'n darparu gweithgareddau datblygu plant o'u genedigaeth at oed ysgol, gan ganiatáu rhieni/gofalwyr gyfarfod i gymdeithasu a rhannu profiadau mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig sydd, hefyd, yn cynnig cyflwyniad gwych i'r Cylch Meithrin ac Ysgol Abersoch. Mae'n gyfle gwych i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer dysgwyr, annog teuluoedd di-gymraeg ddefnyddio'r iaith am y tro cyntaf â'u plant. Mynychodd, ar gyfartaledd, pymtheg rhiant a'u plant bach y sesiynau ond, yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid, ni lwyddodd y grŵp hwn gyfarfod ers mis Mawrth 2020.

#### *Cylch Meithrin Abersoch*

Gall plant ddysgu trwy chwarae a chymdeithasu dan oruchwyliad staff proffesiynol, cymwysedig ac ymroddedig. Rhoddir pwyslais arbennig ar ddatblygiad iaith, personol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Dyfarnwyd arian nawdd o £12,500 gan y Mudiad fel rhan o raglen i gefnogi ac annog profiadau'r iaith Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar i gydfynd â Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'w gofrestrriad fel Sefydliad Corfforedig Elusennol, ynghyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'r Cylch hefyd yn rhan o'r cynllun 30 awr gofal plant am ddim a chyflogir dau aelod o staff cymwysedig. Enwebwyd y Cylch am wobwr yng Ngwobrau Blynyddol y Mudiad Meithrin, sy'n adlewyrchiad gwych o'r gofal plant o'r safon uchaf a gynigir. Cynigia'r Cylch gyflwyniad a throsglwyddiad didrfferth i Ysgol Abersoch. Yn wir, ymunodd dau o gyn-blant y Cylch Meithrin â'r pum disgybl newydd a ddaeth i'r ysgol ym mis Medi 2020.

Chwaraea'r mentrau pwysig hyn rôl hanfodol yn y gymuned, gan ddarparu profiadau a gwasanaethau gofal plant blynyddoedd cynnar ond, y tebygrwydd yw y collir hwy pe caeid yr ysgol.

*Mae'r ffaith bod yr Adran Addysg wedi diystyru effaith y Cylch Meithrin ar nifer y disgyblion yn hepgoriad difrifol.*



## Ysgol Draeth

Cam positif proactif arall yw hyfforddiant a chofrestru fel Ysgol Draeth (Atodiad A) i gywiro tyfiant a chynladwyedd. Mae lleoliad Ysgol Abersoch yn ddelfrydol ar gyfer datblygu'r cysyniad gwych hwn, drwy gyflenwi ethos a gweledigaeth i'n hysgol. Heb amheuaeth, mae profiad Covid yn cyflymu'r symbyliad o fanteisio ar y cyfle i fabwysiadu'r awyr agored fel adnodd dysgu. Mae gan y cynllun unigryw hwn y potensial i gynnig cyfleoedd cynhyrfus i'w rhannu ag ysgolion eraill y dalgylch, gan fod yn llwyfan i brosiect blaenllaw gosodiad addysg prif ffrwd yng Ngwynedd. Saif Ysgol Abersoch mewn man delfrydol ac unigryw i gerdded i'r traethau, twyni, harbwr ac afon i wneud yn fawr o'r adnoddau naturiol sydd o'i hamgylch er budd pob grŵp oedran. Dysga a datblyga disgyblion yn yr amgylchedd naturiol, gan gynnau eu cymhellion cynhenid i chwilota, creu a chwilfrydedd am y byd o'u hamgylch, gan ysbrydoli meddwlgarwch a dychymyg plant. Darpara'r ysgol gyfoeth o gyfleoedd dysgu o redeg yn ffri ar hyd y traeth, cynnau tân a thostio malws melys, ysgrifennu yn y tywod â phriciau, gwyllo adar, dilyn ôl troed anifeiliaid, neidio dros y tonnau, chwilota cynefinoedd crancod, i wyllo'r melinau gwynt lleol yn gweithio. Cofrestrwyd ein Pennaeth i fynychu hyfforddiant Ysgol Awyr Agored/Traeth y llynedd ond, yn anffodus, oherwydd profedigaeth deuluol ni allai fynychu ac, yn dilyn hynny, rhoddodd Covid ddiwedd yn syth ar unrhyw gwrs hyfforddiant uniongyrchol yn y tymor byr.

*A all Cyngor Gwynedd fanteisio ar y cyfle i archwilio cam i gyfeiriad gwahanol trwy mabwysiadu agwedd arloesol i addysg yng Ngwynedd, gan fanteisio ar ein hadnoddau naturiol*

## Amcanestyniadau Disgyblion

Awgryma daroganau yr Adran Addysg yr hanera niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach o fewn y bum mlynedd nesaf. Ymddengys y sylfeini'r rhain ar asesiadau penaethiaid ond, eto, rhagamcana Crynodeb Archwiliad Blynyddol Cyngor Gwynedd 20201 gynnydd mewn poblogaeth o 5.3% rhwng 2020 a 2040 gan gynnwys cynnydd o 0.4% yn nifer y plant. Ymddengys y ffafria'r Adran Addysg ddibynnu ar asesiadau anffurfiol penaethiaid sydd ddim yn byw yn y gymuned i gefnogi ei dadleuon dros gau, yn hytrach na daroganiadau ffurfiol a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Dengys rhagolygon Adran Addysg y Cyngor dueddiad cryn dipyn gwahanol i'r boblogaeth Gymreig ehangach a'r Archwilydd Cyffredinol. O ganlyniad, dylid talu sylw gofalus iawn i ystod realistig o senarios wrth ystyried darpariaeth addysg gynradd yn yr ardal. Pan weithredir rhagamcanion yr Archwilydd Cyffredinol am niferoedd plant, deil niferoedd disgyblion yn ddiwyro wrth gydfynd â blynyddoedd diweddar ac nid ydynt yn gostwng: pe caeir Ysgol Abersoch, dynoda ein dadansoddiad yr addysgir 100% o blant mewn dosbarthiadau gorfaint cymysg (uchafswm maint dosbarth 20) yn y dalgylch lleol. Mae cau Ysgol Abersoch yn ganlyniad o'r Cyngor ddim yn cwrdd â'i amcanion ac yn cyfaddawdu'r ddarpariaeth addysg i'r disgyblion.

*Pa mor sicr yw'r dadansoddiad tueddiadau niferoedd disgyblion a adnabyddid yn yr adroddiad?*

## Blwyddyn 4 Ychwanegol

Derbyniwyd ceisiadau oddi wrth rieni a disgyblion am gynnwys blwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch, a chredwn yn gryf y buasai cynnwys addysg Blwyddyn 4 o fudd enfawr mewn sawl ffordd. Rydym yn hapus 'meddwl tu allan i'r blwch' ac ni ddeallwn pam, dim ond oherwydd bod y model hwn yn wahanol i fwyafrif ysgolion, o ganlyniad na allai fod yn bosibl. Cynyddid niferoedd y disgyblion heb effeithio ar ysgolion cyfagos gan mai ond oedi trosglwyddiad y plant i'w hysgol nesaf a wneid. Mae yna grwpio naturiol mewn dosbarthiadau o Flynyddoedd 3 a 4 a Blynyddoedd 5 a 6 mewn ysgolion cyfagos felly, mae'r syniad hwn yn ffitio'n daclus. Ar y cyd â Thi a Fi, gallai addysg i gynnwys Blwyddyn 4 gynnig pecyn hirdymor o ymrwymiad, parhad a sefydlogrwydd i blentyn a'i rieni hyd at wyth neu naw mlynedd. Mae gan hyn botensial mawr i adeiladu cysylltiadau ar bob lefel o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach a, hefyd, buasai'n annog mwy o rieni



wneud Ysgol Abersoch eu prif ddewis. Mae'n aneglur i ni pam yr anghytuna'r Adran Addysg â'r flwyddyn ychwanegol hon na pham y diystyrir dymuniadau'r plant a'r rhieni.

*Mae ychwanegu Blwyddyn 4 yn gwneud synnwyr greddfol ac yn unol â dymuniad y plant a'r rhieni?*

## Ffederaleiddio

Credwn nad archwiliwyd ffederaleiddio'n ddigonol. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi "rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwobodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio". Nid yr ydym yn teimlo bod hyn wedi caei ei ystyried yn llawn, yn arbennig o ran Ysgol Llanbedrog ymhle mae niferoedd disgyblion yn fwy na'r capasiti. Nid yw'r ddadl o beidio â dilyn hyn ymhellach wedi'i gyfiawnhau'n ddigonol, gan 'nad oedd tystiolaeth glir yr arweiniai ffederaleiddio at gynnydd mewn niferoedd'. O ganlyniad, cynigwn yr ailystyri hyn i gydfynd ag Dalgylch, gan fod y criteria, yn ôl 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd' Cyngor Gwynedd wedi'i gyrraedd.

*Mae Ffederaleiddio'n gynnig realistig sy'n cyfiawnhau ystyriaeth briodol*

## Yr Iaith Gymraeg, Diwylliant a Chymuned

Mae dogfennau'r Ymgynghoriad yn cynnig nad effeithir ar yr iaith a'r gymuned yn ormodol o gau Ysgol Abersoch. Eto, nid yw natur yr ymarfer 'ticio'r blwch' hwn yn cynnwys mewnbwn gan y gymuned ac felly ni all ystyried y gwir effaith ar yr iaith a'r gymuned. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn llysgenhadon i ddyfodol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg â'r capasiti i effeithio ar wir newid, fel y tystiolaetha eu llwyddiannau yn cynyddu arwyddion dwyieithog yn siopau'r pentref.

Mae parhad y gymuned yn amlwg trwy deulu'r ysgol; mae'r Pennaeth, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ynghyd â Llywodraethwyr a rhieni yn gyn-ddisgyblion. Profa hyn bwysigrwydd y cysylltiad gydol oes a geir mewn ysgol bentref fach ag unigolion yn fodlon camu i rolau amlwg yn y gymuned a chyfrannu a chryfhau'r edeifion cymdeithasol a ffurfia wneuthuriad cymuned.

*Mae'r ysgol yn ffagl i'r iaith a diwylliant Cymreig, gan arddangos ein treftadaeth heddiw a sicrhau ei pherthnasedd yn y dyfodol*

## Y Cyd-destun Ehangach

Hoffem weld tystiolaeth sy'n dangos y meddyliodd yr Adran Addysg yn arloesol am y materion hyn, yn hytrach na mynd i'r afael ag o â'r un hen ddatrysiad 'go-to' o gau. Tra bod gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb rheoli ei chyllideb ysgol yn briodol, teimlwn ei bod yn hynod bwysig i gydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd o wynebu anghenion hir dymor gan ystyried cyd-destun y gymuned ehangach. Adnabyddir Abersoch fel gwir hwb economaidd i dwristiaeth, yn ogystal â chefnogi'r economi ehangach tu allan i ffiniau'r pentref a gellid dadlau bod economi Pen Llŷn yn elwa o lwyddiant Abersoch.

Wynebir yr argyfwng tai parhaus a llym yn Abersoch â chynlluniau am dai fforddiadwy a Chynllun y Cyngor newydd i brynu eiddo i'w rhyddhau ar rent ar gyfraddau fforddiadwy. Anelir Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd at gywiro problemau stoc dai fforddiadwy, problem sy'n arbennig o endemig yn Abersoch. Ariannir y cynllun hwn yn rhannol gan gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar dai haf a gwag ac mae Abersoch mewn safle da i elwa ohono. Yn economaidd, mae Abersoch yn mynd o nerth i nerth â chyfleoedd cyflogaeth megis cynllun y gwesty newydd sy'n darogan 150 o swyddi newydd. Gallwn hefyd, yn rhesymol, ddisgwyl weld cynnydd posibl mewn disgyblion o ganlyniad i'r posibilrwydd o berchnogion ailgartrefi symud yn barhaol i'r ardal o ganlyniad i

Covid. Yn ôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, dylem edrych 25 i 50 mlynedd i'r dyfodol a dengys y dangosyddion presennol y dylai Abersoch ffynnu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r swyddi newydd a'r cynlluniau ar gyfer tai yn ddangosyddion allweddol at newid y demograffigau lleol; maent yn pwysleisio'r angen i gynnal darpariaeth addysgol yn y pentref a buasai'r penderfyniad o gau'r ysgol yn taseilio'r mentrau hyn.

*Buasai gweledigaeth ehangach ac integredig tu hwnt i arbedion ariannol cau'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd Abersoch i economi Pen Llŷn; yn ddigwestiwn ar gyfer hyn, mae'r pwysigrwydd o gynnal gwasanaethau sylfaenol o dai, cyflogaeth ac addysg.*

## Diwedd glo

Rhoddodd fframwaith ac amserlen yr holl broses gryn bwysau arnom fel grŵp o unigolion gwirfoddol sydd â chyfrifoldebau megis gwaith a theulu. Roedd rhaid i ni ddarparu arweiniad a gweledigaeth oherwydd absenoldeb ein Pennaeth, delio ag effaith Covid ac ymateb i alwadau'r broses ymgynghori, yn ogystal â'u heffaith cyfatebol ar redeg yr ysgol o ddydd-i-ddydd. Er hynny, fel Llywodraethwyr Ysgol Abersoch, gwnaethom ein gorau glas i ymgysylltu'n bositif â'r adolygiad anffurfiol dechreuol a'r Ymgynghoriad Statudol dilynol a, hyd eithaf ein gallu, annog yn weithredol ryngddeiliaid wneud yr un peth.

Cydnabyddwn, o edrych yn ôl, y buasai gweithredu pendant buan i gyflwyno mentrau positif megis Ti a Fi, Cylch Meithrin a'r Ysgol Draeth wedi osgoi'r argyfwng presennol a wyneba'r ysgol. Fel Llywodraethwyr, rydym yn gwneud hynny a allwn i gadw'r ysgol ar agor ond, teimlwn fod y chyfrifoldebau a roddwyd i ni o'r meintioliad mwyaf perthynol i'n rôl fel gwirfoddolwyr heb gymhwyso ac, felly, yn ymddangos yn anaddas ac annheg. Awgrymwn y strwythurwyd trefniadau llywodraethu'r ysgol bresennol yn anaddas ac mae hyn yn fethiant cryf o system sydd angen ei chywiro. Onid yw cefnogaeth amserol ac ymyriad gan yr Adran Addysg i ddelio â phroblemau, a chydweithio'n broactif â chymuned ysgol yn sicr, yn ffordd fwy adeiladol o fynd ati, yn hytrach na rhuthro mewn ar y funud olaf ag agenda amlwg o gau ysgol?

Canolbwyntiodd yr Adran Addysg ar dri o'r cynigion a gyflwynwyd at ddyfodol Ysgol Abersoch: newid yr ystod oedran o 3 – 11, ffederaleiddio neu gau'r ysgol. Ymddengys mai cau'r ysgol yw'r un a ffafrir wedi'i seilio ar arbedion ariannol â dogfennau ymgynghori'r Adran Addysg fel ymarfer papur i gyfiawnhau'r sefyllfa hon heb wir ystyried y dewisiadau eraill.

Mae'r gefnogaeth a dderbyniom yn ystod y cyfnod ymgynghori o'r galon ac yn eglur; mae yna gryfder teimlad angerddol yn ein cymuned y dylai Ysgol Abersoch gael y cyfle i barhau â'r hyn a ddechreuwyd yng nghysgod Covid fel y gall ein mentrau cysylltiedig â Chylch Ti a Fi, Cylch Meithrin a'r Ysgol Draeth gwreiddio a flodeuo. Pe dysgid rhywbeth o'r pandemig, y sylweddoliad yw nad oes dim pwysicach na chymuned a bod gosodiadau addysgol ar raddfa fechan yn ddiogelach.

Erfyniwn ar y Cabinet ystyried y cynnig o'i flaen yn hynod ofalus. Awgrymwn yn barchus bod gwaith pellach i'w wneud yma, trwy archwilio ffederaleiddio a modelau arloesol eraill o drefniadaeth ysgol cyn cynnig y mesur eithafol o gau'r ysgol. Buasai canlyniadau'r penderfyniad o gau Ysgol Abersoch yn effeithio ar gymuned Abersoch a'r iaith Gymraeg am genedlaethau i ddod. Erfyniwn arnoch gamu'n ôl o'r dibyn a manteisio ar y cyfle i effeithio newid positif ar gyfer dyfodol hirdymor addysg yn y pentref.

Yr eiddoch yn gywir

**MARGOT JONES AC EIFIONA WOOD**  
ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Abersoch

Ysgol Abersoch  
Lôn Gwydryn  
Abersoch  
Gwynedd  
LL53 7EA

Modernising Education Office  
Education Department  
Gwynedd Council  
Caernarfon  
LL55 1SH

20 February 2021

Dear Education Department and Cabinet Members,

We would like to take this opportunity to express our appreciation for the sensitivity shown towards us as a school community at the time of our headteacher's tragic family bereavements last year, and for the support in maintaining staffing arrangements to ensure the continuity of education for our pupils. We owe a debt of gratitude to the excellent team of dedicated teaching and support staff at Ysgol Abersoch, who have shown such unified resilience, care and sensitivity throughout very testing times over the last extremely difficult year.

We were also grateful for the postponement of the consultation until after the Christmas period. However, we remain disappointed that it was felt appropriate to continue with the Statutory Consultation, despite the ongoing pandemic and associated extreme restrictions, which have prevented us from holding any staff, parent or community meetings or any natural, effective discussion on this serious matter. Perhaps more importantly, the decision to continue has caused great distress to the children, who have had to cope not only with the absence of their headteacher and the frightening conditions of Covid but also with the upsetting idea of their school being closed. We feel this decision was clearly not made with the best interests of the children in mind.

We have taken a great deal of time to study the detail of the Statutory Consultation document along with the Background Pack prepared by the Education Department. The sheer volume of this information made it impossible to respond in any shape or form during the first weekend of the consultation, as requested by the Education Department, particularly when the hard copies that we asked for on the 6th January were not delivered in full until the 19th January.

We support the Cyfeillion Ysgol Abersoch response which deals with the Statutory Consultation documents in detail, so for the avoidance of repetition we have decided to focus this response on the existing strengths of the school and ideas and initiatives to ensure a sustainable way forward.

### Ysgol Abersoch

A community school in the true sense of the word, where children are taught in small classes and every voice is heard. Full use is made of the excellent facilities in the adjacent village hall, and swimming lessons are provided all year round. Pupils actively engage with the community through an innovative delivery of the curriculum, which sees the children out and about the village on a regular basis. A variety of after-school clubs are arranged including Urdd Tudwal, offering Welsh medium social activities and opportunities. Whilst class sizes are lower than those in neighbouring schools, most people would attest this can only be to the advantage of the children

in terms of better educational outcomes. In comparison, overlarge classes as observed in neighbouring schools, which incidentally exceed Gwynedd Council's own stated class sizes, can only lead to poorer outcomes. It is surprising that the Education Department puts greater emphasis on social interaction than educational attainment. Pupils leave the school equipped with essential skills and confidence as bilingual individuals, culturally and environmentally aware, with a sense of heritage and lifelong connection to the village and community of Abersoch.

At the beginning of the informal review, in September 2019, we accepted that low pupil numbers signalled the need for change, and thanks to the stimulus of the initial meetings, several innovations to improve the sustainability of the school were found. We have also now ensured that the staffing structure is in line with the budget.

*In challenging times, Ysgol Abersoch has seized the opportunity and demonstrably introduced sustainable measures to address low pupil numbers*

### Cylch Meithrin and Cylch Ti a Fi

The Governing Body is delighted and excited to support the hosting of a Cylch Ti a Fi and Cylch Meithrin in a dedicated classroom within the school building, since these groups have been proven to increase pupil numbers in other schools in the area. After research and with the full support of the Mudiad Meithrin, an independent committee was formed, and both of these initiatives were established in record time, opening in February 2020. Yet the Education Department has selectively disregarded any potential impact of these efforts on pupil numbers.

#### *Cylch Ti a Fi*

A weekly group providing activities promoting the development of children from birth to school age, allowing parents/carers to meet to socialise and share experiences in an informal Welsh atmosphere, which also offers a great introduction to the Cylch Meithrin and Ysgol Abersoch. This is an opportunity for Welsh learners to use their Welsh whilst encouraging non-Welsh speaking families to use Welsh for the first time with their children. An average of 15 parents and toddlers attended the sessions, but unfortunately, due to Covid restrictions, this group has not been able to meet since March 2020.

#### *Cylch Meithrin Abersoch*

Children are able to learn through play and socialise under the guidance of professional, qualified and dedicated staff. There is a special emphasis on language development and the personal, social and emotional development of children. The Cylch was awarded grant funding of £12,500 from the Mudiad, as part of a program to support and encourage early years Welsh Language experiences in line with the Welsh Government's Strategy of a Million Welsh speakers by 2050. Registered as a Charitable Incorporated Organisation as well as with the Care Inspectorate Wales, the Cylch is also part of the 30 hours free childcare scheme and employs two members of qualified staff. The Cylch was nominated for a prize at the Mudiad Meithrin's national awards, which is a great reflection of the high standard of childcare offered. The Cylch offers children a seamless introduction and transition into Ysgol Abersoch. Indeed, two former Cylch Meithrin children were among the five new pupils who joined the school in September 2020.

These important initiatives play a vital role in the community, providing early years experiences and childcare services, but they are likely to be lost if the school were to close.

*That the Education Department has disregarded the impact of the Cylch Meithrin on pupil numbers is a serious omission.*

## Beach School

Training and registration as a Beach School (Appendix A) is another proactive positive step in addressing growth and sustainability. Ysgol Abersoch is ideally placed to develop this great concept, complementing the ethos and vision for our school. There is no doubt that the experience of Covid is accelerating the drive to embrace the outdoors as a learning resource. This unique scheme has the potential to offer exciting opportunities to share with other schools in the area, acting as a flagship project in mainstream education settings in Gwynedd. A short walk from beaches, sand dunes, harbours and river, Ysgol Abersoch is ideally and uniquely positioned to make the most of its surrounding natural resources for the benefit of all age groups. Pupils learn and develop in a natural environment, sparking their intrinsic motivations to explore, create and be curious about the world around them, inspiring young children's thinking and ideas. From running free along the beach, making fires and toasting marshmallows, writing in the sand with sticks, bird watching, tracking animal footprints, jumping over the waves, exploring crab habitats, to watching the local wind turbines work, the school provides a wealth of learning opportunities. Our headteacher was registered to attend Outdoor/Beach School training last year, but sadly due to bereavement she was unable to attend, and subsequently Covid has of course put paid to any immediate training courses.

*Can Gwynedd Council seize this opportunity for an innovative approach to education in Gwynedd, capitalising on our natural resources and exploring a step in a different direction?*

## Pupil projections

The Education Department's predictions suggest that pupil numbers at Sarn Bach will more than halve within the next five years. These predictions appear to be based on headteacher assessments yet the Auditor General's Gwynedd Council Annual Audit Summary 2020<sup>1</sup> projects an increase in population by 5.3% between 2020 and 2040 including a 0.4% increase in the number of children. The Education Department appears to prefer to rely on informal assessments by headteachers, not resident in the community, to support its arguments for closure, rather than formal, published Council projections. The Education Department forecast shows a significantly different trend to the wider Welsh population and the Auditor General. As a result careful attention needs to be given to a realistic range of scenarios when considering the provision of primary education in the area. When the Auditor General projections for children numbers are applied, pupil numbers remain steady in line with recent years and do not fall: if Ysgol Abersoch closes our analysis indicates that within the local catchment area, 100% of children will be educated in oversized mixed classes (maximum class size of 20). The closure of Ysgol Abersoch results in the Council not meeting its objectives and compromises education provision to the pupils.

*How sound is the analysis of the trends in pupil numbers identified in the report?*

---

<sup>1</sup> [https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/gwynedd\\_council\\_annual\\_audit\\_summary\\_2020\\_english.pdf](https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/gwynedd_council_annual_audit_summary_2020_english.pdf)



## Additional Year 4

We have received requests from parents and pupils for an additional year to be included at Ysgol Abersoch, and we firmly believe that offering education to include Year 4 would be of great benefit in several ways. We are happy to think outside of the box, and do not understand why, just because this model is different to most schools, it should not therefore be possible. This would increase pupil numbers, without impacting on neighbouring schools, since the children would only delay the move to their next school. There is a natural grouping in classes of Years 3/4 and Years 5/6 in neighbouring schools, so this idea is a neat fit. In conjunction with the Ti a Fi, education to include Year 4 could offer a long-term package of engagement, continuity and stability for a child and its parents of up to eight or nine years. This has great potential to build connections on many levels within the school and the wider community, and would also encourage more parents to make Ysgol Abersoch their first choice. It is unclear to us why the Education Department does not agree to this additional Year, nor why the wishes of children and parents are disregarded.

*Adding an additional Year 4 makes intuitive sense and is the wish of parents and pupils*

## Federalisation

We believe that federalisation has been insufficiently explored. The Schools Organisation Code states that “the case for closure must be strong and all viable alternatives to closure must have been conscientiously considered by the proposer, including federation”. We do not feel this has been the case, particularly with regards to Ysgol Llanbedrog where pupil numbers exceed capacity. The argument for not pursuing this further is insufficiently justified as ‘there was no clear evidence that federalisation would lead to an increase in numbers’. We therefore propose that this is revisited in-line with a Catchment Area Review, the criteria for which, according to Gwynedd Council’s ‘Excellent Primary Education for Children in Gwynedd’ have been met.

*Federalisation is a realistic option that warrants proper consideration*

## Welsh Language, Culture and community

The Consultation documents suggest that the language and community will not be adversely affected by the closure of Ysgol Abersoch. Yet the nature of this tick-box exercise does not include input from the community and therefore cannot take into account the true impact on the community and language. The pupils of Ysgol Abersoch are ambassadors for the future of the Welsh language and culture, with the capacity to affect real change, as evidenced by their successes in increasing bilingual signage in the village shops.

The continuity of community is evident throughout the school family; former pupils include the Headteacher, the Chair and Vice Chair of the Governors as well as parent governors and parents. This demonstrates the importance of the lifelong connection a small school village education brings, with individuals willing to step up into leading roles in the community contributing to and strengthening the social threads that form the fabric of society.

*The school is a beacon for the Welsh language and culture, showcasing our heritage today, and ensuring its relevance in the future.*

## The wider context

We would like to see evidence that shows the Education Department has really thought innovatively about the issues rather than tackling it with the same old go-to solution of closure. Whilst the Education Department has a responsibility to manage its school budget appropriately, we feel it is extremely important to balance short-term needs with the need to safeguard the ability to also meet long-term needs taking into context the wider community. Abersoch is well recognised as an economic hub for tourism, also supporting the wider local economy outside of the village boundaries, and it can be argued that the economy of Pen Llŷn piggy-backs on the success of Abersoch.

The chronic and acute housing crisis in Abersoch is being addressed with plans for affordable housing and the new Council Scheme to buy properties to release for rent at affordable rates. The Gwynedd Council Housing Action Plan is aimed at addressing the problems of affordable housing stock, a problem particularly endemic within Abersoch. This plan will be partially funded by Council Tax hikes on second homes and empty houses and Abersoch is well-placed to benefit. Economically, Abersoch goes from strength to strength, with employment opportunities such as the new planned hotel which foresees 150 new jobs. We might also reasonably expect a potential increase in pupils due to the possibility of second home-owners making a permanent move to the area after the experience of Covid. According to the Commissioner for Future Generations, we should be looking 25 to 50 years into the future and the present indicators show Abersoch is well placed to flourish in coming years.

These new jobs and plans for housing are key indicators for change in local demographics; they emphasise the need to maintain an educational provision within the village and a decision to close the school would undermine these initiatives.

*A wider, integrated vision beyond the financial savings of school closure, would recognise the importance of Abersoch to the Pen Llŷn economy; implicit in sustaining this is the importance of maintaining basic services of housing, employment and education.*

## In closing

The framework and timetable of the whole process so far have put a great deal of pressure on us as a voluntary group of individuals with commitments such as work and family. We have had to provide leadership and vision in the absence of our headteacher, deal with the impact of Covid and respond to the demands of the consultation process as well as their corresponding impacts on the day-to-day running of the school. Nevertheless, as Governors of Ysgol Abersoch we have tried our best to positively engage with the initial informal review and subsequent Statutory Consultation, and have, to the best of our ability, actively encouraged other stakeholders to do the same.

We acknowledge that with hindsight, earlier decisive action to put in place positive initiatives such as the Ti a Fi, Cylch Meithrin and Beach School, would have avoided the current crisis facing the school. As governors, we are doing all we can to keep the school open, but we feel the responsibilities bestowed upon us are of too great a magnitude relative to our role as unqualified volunteers, and thus seem inappropriate and unfair. We suggest that the current school governance arrangements are inappropriately structured and this is a strong failure of the system that requires addressing. Timely support and intervention by the Education Department to address problems, and proactively working in collaboration with a School community, is surely a more constructive approach, as opposed to sweeping in at a late stage with an obvious agenda to close a school.



Of the options put forward for the future of Ysgol Abersoch, the Education Department has focused on three: change the age range to 3 -11, federalise, or close the school. School closure appears to be the favoured outcome based on financial savings, and the Education Department's consultation documents appear to have been a paper exercise to justify this position without due consideration of the alternatives.

The support we have received during this consultation period is heartfelt and clear; there is a strength of feeling in our community that Ysgol Abersoch should be afforded the time to continue what has been started under the shadow of Covid, so that our innovations associated with the Cylch Ti a Fi, Cylch Meithrin and Beach School can take root and flourish. If this pandemic has taught us anything, it is the realisation that there is nothing more important than community, and that small-scale educational settings are safer.

We appeal to the Cabinet to consider the proposal before them with extreme care. We respectfully suggest that there is further work to be done here to fully explore federalisation and other innovative models of school organisation before proposing the drastic measure of the closure of a school. The consequences of a decision to close Ysgol Abersoch will impact upon the community of Abersoch and the Welsh Language for generations to come. We urge you to take a step back from the precipice and seize the opportunity to affect a positive change for the long-term future of education in the village.

Yours sincerely

**MARGOT JONES AND EIFIONA WOOD**

**On behalf of the Board of Governors, Ysgol Abersoch**

**Eich Manylion:**Dyddiad: Enw: Cyfeiriad e-bost: 

Rwy'n ymateb fel: (ticiwch yr ymateb perthnasol)

Rhiant

Staff

Llywodraethwr

Disgybl

X **Arall** (nodwch)

Os ydych yn dymuno derbyn hysbysiad pan gyhoeddir yr adroddiad ymgynghori, ticiwch y blwch priodol isod

**Hoffwn gael fy hysbysu**Na, nid  wyf yn dymuno cael fy hysbysu

**Yn unol â gofynion deddfwriaeth diogelu data, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu o'r canlynol:**

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio eich barn ar y cynnig hwn fel rhan o broses ymgynghori statudol. Defnyddir y manylion a ddarperir gennych i'r pwrpas hwn yn unig. Efallai y bydd y wybodaeth yn cael ei rannu gydag asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad (e.e. Llywodraeth Cymru) ond dim ond at ddiben ymateb i faterion penodol gall eich bod wedi eu nodi yn eich ymateb. Byddwn yn parhau i ystyried eich sylwadau pa bynnag opsiwn a ddewisir. Cedwir eich manylion personol am 7 mlynedd.

Gyda'ch caniatâd, mae'n bosib y bydd eich sylwadau yn cael eu rhyddhau, yn llawn neu heb gynnwys manylion personol fel enwau a chyfeiriadau, mewn adroddiad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad.

**Os nad ydych yn dymuno i'r Cyngor gyhoeddi eich ymateb, nodwch isod trwy roi ✓ yn y blwch perthnasol os gwelwch yn dda:**

\* Dewiswch un o'r atebion canlynol

Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb yn llawn, gan gynnwys fy ngwybodaeth bersonol

**Cytunaf i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb, heb gynnwys fy ngwybodaeth bersonol**

Nid wyf yn cytuno i'r Cyngor gyhoeddi fy ymateb

## Ffurflen Ymateb

Cynnig i gau Ysgol Abersoch ar y 31 Awst 2021, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn

Bach o 1 Medi 2021 yn unol ag adran 48 Deddf Safon a Threfniadaeth Ysgolion 2013

Am fwy o wybodaeth am eich hawliau a manylion Swyddog Ddogfen Datz i'w Cyngor ewch i'r Adran  
Preifatrwydd ar wefan y Cyngor.

### Anfonwch eich ymateb at:

Swyddfa Moderneiddio Addysg,  
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd,  
Caernarfon

LL55 1SH

neu [ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru)

**Sylwadau:**  
Dyddiad cau: 15:00 ddydd Mawrth, 23 Chwefror 2021

**Nodwch mai sylwadau yw'r ymatebion ac nid  
gwrthwynebiad i'r cynnig.**

**Bydd cyfle i wrthwynebu'r cynnig os bydd rhybudd  
statudoi yn cael ei gyhoeddi.**



# CANGEN MERCHED Y WAWR ABERSOCH

Chwefror 20fed, 2021

Moderneiddio Addysg,  
Adran Addysg,  
Cyngor Gwynedd,  
CAERNARFON,  
Gwynedd.  
LL55 1SH

Annwyl Swyddogion,

## YMGYNGHORIAD STATUDOL CAU YSGOL ABERSOCH

Ysgrifennwn atoch fel Aelodau Merched y Wawr Abersoch i fynegi ein siomedigaeth yn yr uchod – yr ysgol a fynychodd y mwyafrif ohonom a'r un ble addysgwyd ein plant a'n hwyrion, ac un sy'n agos iawn at ein calonnau.

Codi a gostwng bu ei niferoedd ers ei hagog yn 1924 felly, nid yw rhifau isel yn ddieithr iddi. Ac, felly, gallant godi eto pe ceid digon o dai fforddiadwy yn y pentref, gan mai dyna yw'r maen tramgwydd pennaf o ddenu teuluoedd ifainc i Abersoch. A yw Cyngor Gwynedd yn fodlon a pharod gwneud hynny? Gobeithir yn wir, yn hytrach na chaniatáu cynlluniau drudfawr y tai haf sydd yn y pentref.

Mae'r trigolion a'r busnesau'n ymwybodol o fodolaeth yr ysgol oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu drwy'r iaith Gymraeg wrth ymweld â nhw'n rheolaidd – mae Ysgol Abersoch yn ysgol yng nghanol bwrlwm ei chymuned. O'i chau, collir deinameg uned y pentref, y bwrlwm a'r ymlyniad cryf sydd gan rieni at sefydliad. Yn sicr, collid un peth allweddol – cysylltiad â'r gymuned ac ymroddiad honno i'r ysgol – pe caeid hi.

O ganlyniad i'r cysylltiad hwn, cefnogir yr ysgol yn fawr, ac aml, gan y gymuned – yn ariannol gan y busnesau ac mewn unrhyw fodd arall, e.e. bu Aelodau'r Gangen yn darllen â'r plant yn y gorffennol.

Mae Cangen Tudwal o'r Urdd yn cyfarfod yn wythnosol yn yr ysgol ac mae'n hyfryd clywed y plant yn siarad Cymraeg, gan y daw llawer ohonynt o gartrefi di-gymraeg. Dônt i ddefnyddio'r iaith Gymraeg a'i siarad yn rhugl mewn awyrgylch glos a theuluol yn yr ysgol. A ystyriwyd yr effaith a gaiff cau'r ysgol ar y gymuned a'r iaith, heb sôn am addysg y plant? Ymladdwn yn galed i warchod yr iaith a meithrin mewn fudwyr fod yn ddwyieithog ac o'i chau tynnir y sylfaen honno oddi wrthym.

Os na fydd ysgol yma yn Abersoch, ni fydd y plant sy'n byw yma – os bydd rhai – yn ein hadnabod ni na ninnau yn eu hadnabod hwythau ac ni fydd defnydd o'r iaith yn gymdeithasol; collwn dalp arall o'n hiaith a'n hunaniaith.

Mae'n hyfryd gweld y plant yn mynd am dro natur – fel y gwnaethom ninnau yn ystod ein cyfnod ni yn yr ysgol. Buasai'n braf meddwl fod cynllun arloesol fel Ysgol Draeth yn gallu arwain at fwy o wersi yn yr awyr agored iddynt, yn arbennig o ganlyniad i'r pandemig presennol, a'u meithrin a'u dysgu am yr amgylchedd a'r byd rydym yn byw ynddo sy'n wynebu argyfwng ei hun.

Taer erfyniwn arnoch ailystyried eich penderfyniad o gau 'Ysgol Bach', gan y byddai'n difetha addysg gynnar ein plant yma, newid bywydau a theuluoedd a darnio cymdeithas bentrefol. Buasai ei chau, dair blynedd cyn iddi ddatlu ei chanrif, yn dranc a rhoi'r hoelen arall yn arch yr iaith Gymraeg yn Abersoch.

Yn gywir,



**Llywydd ar ran yr Aelodau**

Cyfeillion Ysgol Abersoch  
Ysgol Abersoch  
Lôn Gwydryn  
Abersoch  
PWLLHELI  
Gwynedd  
LL53 7EA

Chwefror 22ain, 2021

Swyddfa Moderneiddio Addysg  
Adran Addysg  
Cyngor Gwynedd  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Annwyl Adran Addysg ac Aelodau'r Cabinet,

Ysgrifennaf ar ran Cyfeillion Ysgol Abersoch mewn ymateb i'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Abersoch ar Awst 31ain, 2021. Gwrthwynebwn yn gryf y cynnig hwn a gofynnwn i'r Cabinet gymryd y cyfle hwn i ddatblygu agwedd gydweithredol ac arloesol i sicrhau parhad darpariaeth addysg ym mhentref Abersoch.

1. Rydym yn amlygu ein pryderon ynglŷn a chyfreithlondeb y broses ymgynghori.

1.1. Roedd yr ymgynghoriad gyda'r disgyblion yn anheg o ystyried ei h'oedran a'i deallusrwydd.

1.2. Mae'r ffurflen ymateb yn annigonol. Nid oes manylion o sut all pobol ofyn cwestiynau pellach ynglŷn a'r cynnig neu cynnig dewisiadau amgen. Nid yw'r ymgynghoreion wedi cael gwybod o'r cyfleon i wneud sylwadau am ddewisiadau amgen i gau yr Ysgol sydd wedi ei adnabod gan Cyngor Gwynedd ynghyd a'u prif ddewis. Nid yw'r ymgynghoreion wedi cael gwybod am y cyfle i gynnig syniadau amgen i gau fyddai hefyd yn ymateb i rhesymau dros gloi ( h.y y brif sialens mae'r Ysgol yn ei wynebu).

1.3. Mae diffyg eglurhad/rhesymeg dros y tafluniad 5 mlynedd o niferoedd disgyblion yr ysgol. Mae penderfyniad Cyngor Gwynedd i beidio â ystyried ardrawiad Ti a Fi a'r Cylch Meithrin ar niferoedd amcan yr Ysgol yn anheg.

1.4. Mae diffyg tryloywder ynglŷn a sut wnaeth Cyngor Gwynedd ymgynghori gyda'r ysgolion cyfagos ac yn benodol nid yw barn yr ysgolion ac ei cyrff llywodraethu ynglŷn a ffederaleiddio yn hysbys. Mae'r diffyg gwybodaeth yma wedi cael ardrawiad ar allu yr ymgynghoreion i ymateb yn ystyrlon i'r cynigion.

Teimlwn hefyd bod gennym nifer o bwyntiau o werth sy'n haeddu ystyriaeth deg fel rhan o'r broses benderfynu. I gefnogi hyn, mae Atodiad A yn dabl manwl o'n sylwadau ar y dogfennau ymgynghori a ddarparwyd gan Foderneiddio Addysg a gofynnwn i'r sylwadau hyn, yn ogystal â'r pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn, gael eu hadolygu a rhoi sylw iddynt.

## 2. Maint Dosbarthiadau a Chapasiti

### 2.1. Maint Dosbarthiadau

Ymrwymodd Cyngor Gwynedd i strategaeth o 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant yng Ngwynedd'<sup>1</sup>. Yn y strategaeth hon, dynodir meintiau dosbarth fel elfen bwysig er mwyn i blant feithrin y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl. Mae gan y pedair ysgol yn y dalgylch (Ysgolion Abersoch, Sarn Bach, Llanbedrog a Foel Gron) ddosbarthiadau oed cymysg fel yr arferol. Ymrwymodd Cyngor Gwynedd sicrhau bod yna, ar gyfartaledd, dim mwy nag 20 neu lai na 12 disgybl mewn unrhyw ddosbarth oed cymysg ond, eto, mae meintiau dosbarth 2020 – 2021 yn uwch nag 20 mewn chwe dosbarth allan o naw (Atodiad B – Adolygiad o Feintiau Dosbarth, Capasiti a Rhagolygon y Boblogaeth – Adroddiad gan Gyfeillion Ysgol Abersoch Chwefror 2021 /Appendix B – Review of Class Sizes, Capacity and Population Forecasts – A report by Cyfeillion Ysgol Abersoch Friends, February 2021).

### 2.2. Capasiti

Datgana Cod Trefniadaeth Ysgolion, "Fel arfer, ni ddylid bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol". Ymhellach, datgana 'Gwybodaeth i Rieni Cyngor Gwynedd 2021 – 2022'<sup>2</sup> "Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â dewis rhieni nes cyrraedd rhif mynediad yr ysgol" a "Gall yr Awdurdod mewn amgylchiadau eithriadol roi mynediad i blant nes bod y nifer sy'n cael mynediad uwchben y rhif mynediad cyhyd nad yw derbyn yn effeithio'r ysgol yn y tymor byr a'r tymor hir a ddim yn cael effaith anfanteisiol ar ysgolion cyfagos". Eto, mae niferoedd Ysgol Llanbedrog wedi gordanysgrifio o fwy nag 20%, gyda 102 o blant yn mynychu o gymharu â'i chapasiti o 83, gyda 43% o'r disgyblion sy'n ei mynychu yn all-ddalgylch. Ni chredwn fod Cyngor Gwynedd yn dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion na'i bolisiau ei hun o ran mynediad, uchafswm meintiau dosbarthiadau o 20 disgybl i blant mewn dosbarthiadau oed cymysg nac, ychwaith, mewn rhai achosion lefel cyfreithiol y Cyngor ei hun o 30 mewn dosbarth.

### 2.3. Niferoedd Amcanestyniad

